OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 100 (Cy. 48)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (O.S. 2009/1385 (Cy. 141)) drwy ddileu'r gofyniad i gyfarwyddwr anweithredol yr awdurdod lleol a chyfarwyddwr anweithredol y brifysgol gael eu henwebu. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu'r gofyniad i gyfarwyddwr anweithredol y sector gwirfoddol fod yn ddeiliad swydd yng Nghymru. Ni fydd rhaid bellach i gyfarwyddwr anweithredol y brifysgol gael ei enwebu gan brifysgol yng Nghymru, na meddu ar arbenigedd addysgu neu ymchwilio ym maes iechyd cyhoeddus; yn hytrach, yr unig ofyniad fydd i'r person fod yn ddeiliad swydd sy'n ymwneud ag iechyd mewn prifysgol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 100 (Cy. 48)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Ionawr 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *2 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym* | *15 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18(4), 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mawrth 2016.

**Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141).

(2) Yn rheoliad 5 (cyfarwyddwyr anweithredol), yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Bydd cyfarwyddwyr anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys—

(a) person sy'n ddeiliad swydd sy'n ymwneud ag iechyd mewn prifysgol;

(b) person a chanddo brofiad o awdurdodau lleol yng Nghymru;

(c) person sy'n un o gyflogeion neu'n un o aelodau corff sector gwirfoddol a chanddo brofiad o'r fath gyrff yng Nghymru."

(3) Hepgorer paragraff (2).

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

28 Ionawr 2016